

Pa sgiliau sydd gen i?

Yn ystod eich amser yn y Brifysgol, byddwch yn datblygu sgiliau academiaidd, astudio a phroffesiynol gwerthfawr a throsglwyddadwy a fydd yn cefnogi eich dysgu a'ch gyrfa yn y dyfodol.

Sgiliau academiaidd yw'r sgiliau rydych chi'n eu defnyddio bob dydd fel myfyriwr. Felly os ydych chi'n meddwl am ba sgiliau sydd gennych eisoes neu beth ddylech chi ganolbwyntio arnyn nhw, edrychwch ar ein rhestr ac awgrymiadau ar sut i'w datblygu.



Sgiliau ysgrifennu

Mae ysgrifennu academiaidd effeithiol yn fwy na dim ond rhoi eich meddyliau lawr ar bapur; mae'n gofyn i chi fod yn fanwl gywir, meddwl yn feirniadol, a defnyddio arddull academiaidd. Mae angen i chi allu cyfathrebu'n glir, trefnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol a chefnogi eich pwyntiau gyda thystiolaeth. Mae'n bwysig bod yn glir, dadansoddi pethau'n ofalus, a chael dull strwythuredig.

Mwy o wybodaeth: aber.ac.uk/cy/aberskills/writing-assignments



Sgiliau darllen

Mae darllen beirniadol yn cynnwys dadansoddi a gwerthuso deunyddiau ysgrifenedig fel gwerslyfrau, erthyglau ac adnoddau academiaidd eraill. Mae hyn yn cynnwys asesu amcanion awduron, nodi rhagfarnau, a gwerthuso hygyrdded y dystiolaeth a ddarparwyd. Y nod yw gwella eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth yn hytrach na chofio gwybodaeth yn unig. Cymerwch nodiadau effeithiol i drefnu a dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn hawdd. Mwy o wybodaeth: libguides.aber.ac.uk/hafan



Sgiliau meddwl beirniadol

Er mwyn deall a gwneud synnwyr o wybodaeth yn iawn, mae'n rhaid i chi weithio ar eich sgiliau meddwl beirniadol. Mae hyn yn cynnwys cwestiynu, archwilio tystiolaeth, a ffurfio barn a chasgliadau annibynnol yn hytrach na derbyn gwybodaeth fel ag y mae. Mae bod yn feirniadol yn golygu mwy na dim ond adrodd gwybodaeth o ddarlithoedd neu lenyddiaeth. Byddwch yn llunio beirniadaeth am dystiolaeth i ffurfio eich barn eich hun ac i gyflwyno eich barn yn glir.



Sgiliau cymryd nodiadau

Nid oes gan gymryd nodiadau ddull cywir nac anghywir. Serch hynny, fe'ch cynghorir i gadw nodiadau cryno ac i'r pwynt. Nid yw ceisio trawsgrifio pob manylyn yn cynnig unrhyw fantais; yn hytrach, dylai eich nodiadau ddal y cysyniadau allweddol a'r pwyntiau arwyddocaol rydych chi wedi'u cydnabod.

Mwy o wybodaeth: aber.ac.uk/cy/aberskills/writing-assignments





Sgiliau digidol

Mae'r gallu wrth ddefnyddio technoleg yn hanfodol ar gyfer cyrchu gwybodaeth, cydweithio â chyfoedion, a chwblhau gwaith cwrs. Gallwch ddatblygu eich sgiliau digidol gyda [apwyntiadau 1:1 gyda'ch Llyfrgellydd Pwnc](#), benthyca adnoddau llyfrgell a mynychu [gweithdai sgiliau](#) amrywiol.



Sgiliau cyfeirnod

Mae angen i chi gydnabod gwaith pobl eraill yn eich gwaith eich hun drwy gyfeirnod. Mae cyfeirnod yn sgil y byddwch chi'n ei datblygu po fwyaf y byddwch chi'n ei wneud! Cymerwch ychydig o amser yn darllen y [canllaw Ymwybyddiaeth Cyfeirnod](#) a [Llên-ladrad](#) a dilynwch eich canllawiau arddull cyfeirnod adrannol.



Sgiliau rhifedd

Mae sgiliau mathemateg, ystadegau a rhifedd yn berthnasol i lawer o feysydd pwnc, nid cyrsiau mathemateg a gwyddoniaeth yn unig. Mae sgiliau rhifedd yn hanfodol yn y rhan fwyaf o yrfaeodd. Diweddarwch eich sgiliau rhifedd gyda [sesiynau galw-heibio ac apwyntiadau 1:1](#) er mwyn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich cwrs presennol a thu hwnt.



Sgiliau cyflwyno

Mae cyflwyniadau yn fath cyffredin o asesu, fel gweithgaredd unigol neu grŵp. Mae cyflwyno syniadau gydag eglurder a hyder yn helpu i hybu hyder ac yn dyfnhau dealltwriaeth o'r pwnc. Mae'r sgiliau hyn yn werthfawr ar gyfer cyfleu meddyliau yn effeithiol a phan yn gweithio mewn lleoliadau proffesiynol. Mwy o wybodaeth: aberskills.aber.ac.uk/cy/ysgrifennuaseiniadau




Sgiliau cyfathrebu

Mae sgiliau cyfathrebu yn cynnwys mynegiant clir a chryno wrth siarad ac ysgrifennu, yn ogystal â gwrando'n weithredol a chydweithio ag eraill. Mae prosiectau grŵp a gweithio gydag eraill yn gyffredin, felly mae cyfathrebu'n dda yn chwarae rhan allweddol.



Sgiliau gwrando gweithredol

Mae gwrando gweithredol yn golygu canolbwyntio'n wirioneddol ar yr hyn y mae'r siaradwr yn ei ddweud a gofyn cwestiynau i sicrhau eich bod yn deall yn iawn. Mae rhai awgrymiadau defnyddiol i wneud hyn yn cynnwys cymryd nodiadau, gwneud cysylltiadau, rhoi gwybodaeth at ei gilydd, a dod i gasgliadau.





Sgiliau ymchwilio

O ddod o hyd i ffynonellau perthnasol a'u dadansoddi'n feirniadol i roi'r holl wybodaeth at ei gilydd, mae cael sgiliau ymchwil cryf yn allweddol. Bydd angen i chi hefyd werthuso a gwirio'r wybodaeth rydych chi'n dod o hyd iddi: libguides.aber.ac.uk/gwerthuso. A gadewch i ni beidio ag anghofio gallu llywio gwahanol gronfeydd data, peiriannau chwilio, ac arddulliau cyfeirnod - mae hynny i gyd yn rhan o feddu ar sgiliau ymchwil da.



Sgiliau astudio

Mae astudio effeithiol yn amrywio ar gyfer pob person. Mae'n hanfodol darganfod eich amser a'ch dull gorau posibl, p'un a yw'n sesiynau cramio munud olaf neu sesiynau wedi'u trefnu. Datblygwch sgiliau astudio drwy osod nodau, creu amserlen, a defnyddio strategaethau fel cymryd nodiadau a hunan-brofi. Dewch o hyd i'r hyn sy'n addas i chi.

Mwy o wybodaeth: aber.ac.uk/cy/aberskills/learning-effectively.



Sgiliau rheoli amser

Mae rheoli eich amser yn bwysig yn y Brifysgol. Gyda gwahanol gyrsiau, aseiniadau a gweithgareddau, gall aros ar ben popeth fod yn dipyn o her. Arhoswch yn drefnus drwy osod blaenoriaethau, creu amserlen, a thorri tasgau yn ddarnau llai. Mae'r dull hwn yn ei gwneud hi'n haws delio â'ch llwyth gwaith.

Mwy o wybodaeth: aberskills.aber.ac.uk/cy/rheoliamser

**Rwyf am wella'r sgiliau hyn.
Lle gallaf ddod o hyd i gefnogaeth?**

Ewch i SgiliauAber!

Gall **SgiliauAber** eich helpu i adnabod, datblygu a mireinio eich sgiliau gyda:

- gweithdai sgiliau
- apwyntiadau 1:1
- sesiynau galw-heibio
- canllawiau, arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol
- deunydd cymorth a llawer mwy!

Sganiwch y cod QR neu ewch i'r ddolen isod am ragor o wybodaeth.



www.aber.ac.uk/cy/aberskills

SgiliauAber